

SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENE RATING

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd  
(Cymru) 2013, Atodlen 2

## Ffurflen ar gyfer gwneud apêl

### Nodiadau ar gyfer busnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 5 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i apelio yn erbyn y sgôr hylendid bwyd a roddwyd i'r sefydliad:
  - os nad ydych yn cytuno bod y sgôr yn adlewyrchiad priodol o'r safonau hylendid a ganfuwyd ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad;
  - os credwch nad oedd y meini prawf sgorio wedi eu cymhwyso'n gywir wrth gynhyrchu eich sgôr hylendid bwyd.
- Mae gennych 21 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc) i gyflwyno apêl, o'r dyddiad y cawsoch y llythyr hysbysu.**
- Os gwelwch yn dda, defnyddiwch y ffurflen isod a dychwelwch hi at eich awdurdod lleol –anfonwyd y manylion cyswllt atoch gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd. Bydd eich apêl yn cael ei phenderfynu gan swyddog awdurdodedig, a hysbysir chi o ganlyniad eich apêl o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y derbyniwyd yr apêl.

Y gweithredwr busnes bwyd

Enw'r busnes

Cyfeiriadau busnes

Rhif teleffon y busnes

Cyfeiriad e-bost y busnes

Dyddiad yr arolygiad

Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd

Dyddiad yr hysbyswyd y sgôr

Enw'r Swyddog Arolygu

Enw'r person cyswllt (os yw'n wahanol i'r gweithredwr busnes bwyd)

Cyfeiriad y Brif Swyddfa neu gyfeiriadau'r person cyswllt (os ydynt yn wahanol i gyfeiriadau'r gweithredwr busnes bwyd)

Rhif teleffon y person cyswllt

Nid wyf yn cytuno â'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd gan y swyddog diogelwch bwyd, oherwydd:

- Rwyf yn credu nad oedd y meini prawf sgorio wedi eu cymhwyso'n gywir, neu,
- Nid wyf yn cytuno bod y sgôr yn adlewyrchu'n briodol y safonau hylendid a ganfuwyd ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

(rhowch esboniad, o dan bob un o'r tri phennawd):

Cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd	
Cydymffurfio â gofynion strwythurol	
Hyder yn y gweithdrefnau rheoli a rheolaethau	

Llofnod			
Enw mewn priflythrennau			
Swydd		Dyddiad	

**Dychwelwch y ffurflen hon yn awr at eich awdurdod lleol Adran**

**Diogelwch Bwyd, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn. LL29 7AZ**